




The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Dyfarnu Costau





## Atodiad 06

### Costau

#### Dyfarnu costau

1. Mae'r Llawlyfr Rheoli Datblygu Adran Atodiad 12: Dyfarnu costau yn rhoi canllawiau ar ddyfarnu costau ar gyfer apeliadau a cheisiadau yn ymwneud â chynllunio sydd gerbron Gweinidogion Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn dirymu a disodli Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig 'Dyfarnu Costau mewn Trafodion Cynllunio a Thrafodion Eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol).'

#### Pam mae costau'n cael eu dyfarnu

2. Mae dyfarniad costau yn orchymyn sy'n datgan y bydd un parti yn talu i barti arall y costau, yn llawn neu'n rhannol, yr aethpwyd iddynt gan y parti sy'n eu derbyn yn ystod y broses lle mae Gweinidogion Cymru neu Arolygydd yn gwneud penderfyniad. Mae'r gorchymyn costau yn datgan maint cyffredinol y costau y gall y parti eu hadennill oddi wrth y parti y gwnaed y dyfarniad yn eu herbyn. Nid yw'n pennu'r swm gwirioneddol, sy'n parhau i fod yn destun setliad rhwng y partion.
3. Disgwylir i bartion dalu eu costau eu hunain. Ni ddyfernir costau i apelydd neu ymgeisydd dim ond oherwydd bod eu hapêl neu gais wedi llwyddo, ac yn yr un modd, ni ddyfernir costau i awdurdod cynllunio lleol oherwydd bod eu sefyllfa neu benderfyniad wedi'i gadarnhau.
4. Nod y gyfundrefn gostau yw:
  - Annog pawb sy'n cymryd rhan i ymddwyn mewn modd rhesymol, meithrin mwy o ymdeimlad o ddisgyblaeth a dilyn arfer da o ran prydlondeb ac wrth gyflwyno tystiolaeth lawn a manwl i gefnogi eu hachos;
  - Annog awdurdodau cynllunio lleol i ymarfer yn briodol eu cyfrifoldebau rheoli datblygu, i ddibynnu'n unig ar resymau dros wrthod sy'n gwrthsefyll craffu ynghylch rhinweddau cynllunio'r achos, ac i beidio ag ychwanegu at gostau datblygu drwy oedi osgoadwy; a
  - Pheidio â digalonni pobl rhag ymarfer eu hawl statudol i apelio.

#### Amgylchiadau lle gellir dyfarnu costau

5. Disgwylir i bob parti ymddwyn yn rhesymol i gefnogi proses effeithlon a phrydlon, er enghraifft o ran darparu'r holl dystiolaeth sy'n ofynnol a sicrhau eu bod yn dilyn amserlenni. Pan fo parti wedi ymddwyn yn afresymol, ac mae hyn yn achos uniongyrchol i barti arall fynd i gost ddiangen neu wastraffus yn y broses o apelio neu wneud cais, mae'n bosibl y byddant yn destun dyfarniad costau.

6. Mae dyfarniadau costau yn gallu ymwneud â dau fath o ymddygiad: sef Gweithdrefnol a Sylweddol.
7. Ceir canllawiau llawn gan gynnwys diffiniadau ac enghreifftiau o'r uchod yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu adrannau 2 a 3.

### **Partion a allai fod yn destun dyfarniad costau**

8. Mae ACLlau, apelyddion a phartion â buddiant sydd wedi cymryd rhan yn y broses, gan gynnwys ymgylgoreion statudol, yn gallu gwneud cais am gostau, neu gellir dyfarnu costau yn eu herbyn. Yn gyffredinol, dyfernir costau naill ai o blaid neu yn erbyn trydydd partion mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.
9. Rhaid i bob parti wneud cais am ddyfarniad costau ar y cyfle cyntaf posibl. Mae hyn yn berthnasol i'r holl drafodion a gaiff eu trin drwy sylwadau ysgrifenedig, drwy wrandawiadau, drwy ymchwiliadau neu drwy weithdrefnau cyfunol. Mae tudalen 19 y Llawlyfr Rheoli Datblygu yn cynnwys canllawiau llawn gan gyfeirio at ddyddiadau cyflwyno.
10. Gellir dod o hyd i'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn:  
<http://gov.wales/topics/planning/appeals/costs/?lang=cy>